# Maes Llafur Cytûn ar gyfer

# Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

# Cwricwlwm i Gymru

# Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

# RHAGAIR

Yn 2022, fe wnaeth Cyngor Bwrdeistref Merthyr gynnal Cynhadledd i lunio'r Maes Llafur Cytûn newydd ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) i gyd-fynd â'r Ddeddf Cwricwlwm i Gymru 2021. Mae'r pedwar diben yn creu gweledigaeth a dyhead i bob plentyn a pherson ifanc, ond rhaid inni hefyd gofio bod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ofyniad statudol o'r Cwricwlwm i Gymru a'i fod yn fandadol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Mae'n rhan annatod o Faes Dysgu a Phrofiad (MDPh) y Dyniaethau, yn ogystal â darparu cyfraniad unigryw ac amlwg ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru.

Rhaid i bob ysgol a sefydliad "roi ystyriaeth" i CGM yn eu Maes Llafur Cytûn lleol wrth ddylunio a gweithredu eu cwricwlwm, a rhaid rhoi lle amlwg i CGM ym mhrosesau dylunio a chynllunio'r cwricwlwm ysgol. Er mwyn creu'r Maes Llafur Cytûn, lluniodd y Gynhadledd weithgor oedd yn cynnwys athrawon, cynrychiolwyr o grwpiau ffydd ac anghrefyddol, swyddogion awdurdodau lleol, arbenigwyr ym maes CGM a gweithwyr proffesiynol eraill. Mae'r Maes Llafur Cytûn hwn yn gyfredol, yn ystwyth ac yn hyblyg a bydd yn cefnogi ysgolion ar draws y Fwrdeistref Sirol i gyflwyno CGM. Sicrhaodd y gweithgor fod gweledigaeth y pedwar diben sy'n rhan o'r Cwricwlwm i Gymru, yn ogystal ag egwyddorion cynllunio cwricwlwm, yn ganolog i'r Maes Llafur Cytûn lleol. Cydnabyddir y gall CGM, fel rhan annatod o'r Cwricwlwm i Gymru, gynnig cyfraniad nodedig at wireddu'r pedwar diben i bob dysgwr.

Fel yr amlinellwyd yn y strategaeth addysg "Codi Dyheadau, Codi Safonau", "Mae pawb yng nghymuned addysg Merthyr Tudful yn credu bod gan ein holl blant a phobl ifanc hawl i gael y cyfleoedd bywyd gorau posibl. Rydym yn sylweddoli mai dim ond trwy wella eu mynediad at gyfleoedd addysgol o'r ansawdd uchaf y gellir cyflawni hyn, a thrwy eu cefnogi a'u hannog i fod y gorau y gallant fod." [1] Y dull mwyaf effeithiol o gyflawni hyn yw trwy gynnig cwricwlwm sy'n darparu profiadau helaeth a heriau dwfn ac eang, a thrwy gynnig cyd-destun i'r dysgu sy'n adlewyrchu bywyd go iawn yr ardal leol er mwyn diwallu anghenion pob dysgwr yn eu sefydliadau unigol neu glwstwr.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb a gyfrannodd at greu'r ddogfen hon ac i'r rheini a fydd yn rhoi cefnogaeth gyda'r camau i ddilyn.

**Sue Walker**
**Cyfarwyddwr Addysg**

[1] Codi Dyheadau, Codi Safonau, 2021, tudalen 2

## **Cynnwys**


| **Pennawd** | **Tudalen/nau** |
|---|---|
| Rhagair | 1 |
| Cynulleidfa | 3 |
| Trosolwg | 3 |
| Camau Gweithredu | 4 |
| Dogfennau Cysylltiedig | 4 |
| Rhagarweiniad | 5 |
| Y Gofyniad Cyfreithiol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) | 5-7 |
| Cynllunio eich Cwricwlwm CGM | 7 |
| Pwyntiau i'w Hystyried gan Ysgolion a Sefydliadau Merthyr Tudful | 8 |
| Yr "Hawl i Dynnu'n Ôl" yn y Cwricwlwm i Gymru | 8-9 |
| Deunyddiau Ategol Ychwanegol ar gyfer Ysgolion a Sefydliadau Merthyr Tudful | 9 |
| Cyswllt | 9 |


Mae'r holl wybodaeth a amlygwyd mewn llwyd wedi'i chymryd yn uniongyrchol o wefan yr Hwb. Darperir dolenni ar ddechrau pob adran.

# **Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful**
# **Maes Llafur Cytûn ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg**

## Cynulleidfa

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi ysgrifennu Maes Llafur Cytûn ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) a'i wneud yn hygyrch i bawb sy'n gyfrifol am gynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm CGM. Dyma'r gynulleidfa arfaethedig:

- pennaeth ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir;
- corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir;
- darparwr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir;
- yr athro sy'n gyfrifol am uned cyfeirio disgyblion;
- pwyllgor rheoli uned cyfeirio disgyblion;
- y person sy'n darparu ar gyfer addysgu a dysgu'r plentyn, heblaw mewn ysgol a gynhelir, ysgol feithrin a gynhelir neu uned cyfeirio disgyblion, yn rhinwedd trefniadau a wneir o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996 (p.56);
- awdurdod lleol yng Nghymru.

Yn ogystal â hynny, gall y Maes Llafur Cytûn fod yn ddefnyddiol hefyd i ymarferwyr, consortia rhanbarthol, cyrff dyfarnu, Estyn, undebau athrawon, sefydliadau crefyddol, sefydliadau anghrefyddol, rhieni a gofalwyr a chyrff eraill yng Nghymru sydd â diddordeb mewn CGM.

## Trosolwg

**Maes llafur cytûn**
*"Gan mai pwnc y penderfynir arno'n lleol yw Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, y maes llafur cytunedig sy'n pennu'r hyn y dylid ei addysgu yn y pwnc ym mhob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru ar gyfer yr ysgolion hynny sy'n addysgu'r maes llafur cytunedig."*
https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/cynllunio-eich-cwricwlwm/#religion,-values-and-ethics-guidance

Mae'r ddogfen hon yn manylu'r elfennau sy'n ymwneud ag addysgu a dysgu CGM ac sy'n fandadol yn ôl y Cwricwlwm i Gymru, a hynny ar gyfer pob ysgol a sefydliad a gynhelir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Mabwysiadwyd y ddogfen hon fel y Maes Llafur Cytûn ar gyfer CGM ym Merthyr Tudful, yn unol â'r Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.

Fe wnaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful fabwysiadu'r ddogfen hon fel y Maes Llafur Cytûn ar gyfer CGM ym mis Mai 2022, yn dilyn argymhelliad ffurfiol i'r Awdurdod Lleol gan y Gynhadledd Maes Llafur Cytûn ar Gorffennaf 2022.

*"Ar ôl i faes llafur cytunedig gael ei fabwysiadu, bydd yn ofynnol i bob ysgol a lleoliad a gynhelir ystyried y maes llafur cytunedig, gan gynnwys ysgolion sydd â chymeriad crefyddol, wrth gynllunio elfen maes llafur cytunedig eu darpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg."* Canllawiau CGM

Mae'n ofynnol i bob ysgol a gynhelir ym Merthyr, yn ogystal â meysydd mandadol y Cwricwlwm i Gymru, **"roi sylw"** i'r Maes Llafur Cytûn ar gyfer CGM wrth gynllunio'u cwricwlwm. Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ddyletswydd i adolygu'r Maes Llafur Cytûn bob pum mlynedd.

Mae Maes Llafur Cytûn Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn cydnabod bod y Fframwaith Cwricwlwm i Gymru yn gweithredu ar sail yr egwyddor **sybsidiaredd** ac, fel y cyfryw, mae Maes Llafur Cytûn Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn cydnabod ac yn adlewyrchu ymreolaeth yr ysgolion a'r sefydliadau wrth iddynt wireddu'u cwricwlwm.

## Camau Gweithredu

Bydd Maes Llafur Cytûn Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn dod i rym o **fis Medi 2022**, a hynny ar gyfer pob dysgwr, hyd at a chan gynnwys Blwyddyn 6. Ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 7, bydd gan ysgolion y rhanbarth hyblygrwydd ynghylch a ddylid cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ym mis Medi 2022, neu gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer Blynyddoedd 7 ac 8 gyda'i gilydd ym mis Medi 2023. Yn ystod cyfnod cyflwyno'r cwricwlwm, wrth i ysgol uwchradd neu sefydliad "fabwysiadu" y Fframwaith Cwricwlwm i Gymru ar gyfer grŵp blwyddyn penodol, bydd y Maes Llafur Cytûn hwn yn disodli Maes Llafur Cytûn Presennol/Hen Faes Llafur Cytûn Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. O fis Medi 2023, dyma fydd y Maes Llafur Cytûn ar gyfer Blynyddoedd 7 ac 8 gan y bydd pob ysgol a sefydliad wedi gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer y dysgwyr hynny. Wedi hynny, bydd y broses o gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn parhau'n raddol, a bydd y Maes Llafur Cytûn hwn a weithredir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn disodli'r llall:

- Dysgwyr Blwyddyn 9 ym mis Medi 2024;
- Dysgwyr Blwyddyn 10 ym mis Medi 2025;
- Dysgwyr Blwyddyn 11 ym mis Medi 2026.

Mae rhagor o wybodaeth i ysgolion a sefydliadau am y broses ar gyfer ymuno â'r Cwricwlwm i Gymru mewn perthynas â dysgwyr Blwyddyn 7 ar gael yn y Y Daith i Weithredu'r Cwricwlwm.

## Dylid cyfeirio ymholiadau pellach ynghylch y ddogfen hon at:

Miss Andrea May, Pennaeth Cyflawniad a Llesiant
**andrea.may@merthyr.gov.uk**

neu drwy ymweld â gwefan y Cyngor sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

## Dogfennau Cysylltiedig

Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021
Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
# Maes Llafur Cytûn ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

## Rhagarweiniad

Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ofyniad **statudol** o'r Cwricwlwm i Gymru ac mae'n **fandadol** i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed:

Mandadol
*"Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn un o ofynion statudol Cwricwlwm i Gymru ac yn fandadol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn rhan o Faes y Dyniaethau (Maes). Mae'r Maes hwn yn cynnwys daearyddiaeth; hanes; Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg; astudiaethau busnes. Mae'r disgyblaethau hyn yn rhannu llawer o'r un themâu, cysyniadau a sgiliau trosglwyddadwy, ac yn cynnwys eu gwybodaeth a'u sgiliau gwahanol eu hunain hefyd."*
https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/cynllunio-eich-cwricwlwm/#religion,-values-and-ethics-guidance

## Y gofyniad cyfreithiol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM)

Mae'n hanfodol fod Penaethiaid, Uwch Arweinwyr a Llywodraethwyr yn deall gofynion cyfreithiol CGM o fewn y Cwricwlwm i Gymru. Gellir dod o hyd i'r rhain yn adran CGM o Grynodeb y ddeddfwriaeth.

**Gellir gweld y canllawiau ar ddeddfwriaeth CGM ar wefan Hwb Llywodraeth Cymru:**

https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/crynodeb-o-r-ddeddfwriaeth/#religion,-values-and-ethics

Mae'r canllawiau ar CGM yn **statudol**:

Mandadol
*"Mae'r canllawiau ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg ym Maes y Dyniaethau yn statudol a chânt eu cyhoeddi o dan adran 71 o'r Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (y Ddeddf) a bwriedir iddynt helpu'r rhai sy'n gyfrifol o dan y Ddeddf am gynllunio'r maes llafur ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg fel rhan o gwricwlwm yr ysgol."*
https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/crynodeb-o-r-ddeddfwriaeth/#religion,-values-and-ethics

Mae Maes Llafur Cytûn Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn dilyn y Canllawiau Statudol ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg a welir ar Hwb ac mae'n sail i'r Maes Llafur Cytûn hwn a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r ddogfen hon.

**Mae’r canllawiau statudol ar CGM i’w gweld ar wefan Hwb Llywodraeth Cymru:**

https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/cynllunio-eich-cwricwlwm/#religion,-values-and-ethics-guidance

Mae’r canllawiau CGM statudol yn cynnwys gwybodaeth hanfodol i ysgolion wrth iddynt ddylunio’u cwricwlwm ar lefel leol, gan gynnwys y meysydd canlynol:

- CGM o fewn y Cwricwlwm i Gymru
- Datblygiad ysbrydol
- Themâu trawsbynciol
- Sgiliau trawsgwricwlaidd
- Sgiliau hanfodol i’r pedwar diben
- Egwyddorion Dilyniant o fewn y Dyniaethau
- Disgrifiadau o ddysgu o fewn y Dyniaethau
- Cynllunio’ch cwricwlwm ar gyfer CGM
    - CGM a’r pedwar diben
    - CGM a’r datganiadau sy’n cyfrif
    - Cysyniadau CGM
    - Lens CGM (is-lensys CGM)
    - Dilyniant dysgwyr a theithiau dysgu yn y maes CGM
    - Cyfoethogi profiad dysgwyr yn y maes CGM
    - Cysylltiadau allweddol â Meysydd eraill
    - Pwyntiau i’w hystyried gan ysgolion a sefydliadau
- Sicrhau cynwysoldeb yn y maes CGM
- Addysg mewn lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir
- Addysg Heblaw yn yr Ysgol

Yn unol â Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, bydd ysgolion a sefydliadau Merthyr Tudful yn nodi bod eu Maes Llafur Cytûn yn adlewyrchu'r canlynol:

- bod traddodiadau crefyddol yng Nghymru yn Gristnogol yn bennaf, ond byddir yn cymryd i ystyriaeth ddysgeidiaeth ac arferion y prif grefyddau eraill a gynrychiolir yng Nghymru;

- bod ystod o argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol yn bodoli yng Nghymru.

Dylai ysgolion a sefydliadau Merthyr Tudful hefyd gymryd sylw o'r newidiadau deddfwriaethol canlynol a fydd yn cael effaith sylweddol ar ysgolion:

- nid oes hawl gan rieni i dynnu eu plant allan o bwnc academaidd CGM o fewn y Cwricwlwm i Gymru;

- rhaid i "ysgolion a gynhelir â phlant oed meithrin" a "lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir", ddarparu CGM ar gyfer eu holl ddysgwyr o dair oed, o fis Medi 2022 ymlaen.

## Cynllunio'ch Cwricwlwm CGM

Y man cychwyn ar gyfer unrhyw gynllun cwricwlwm yw'r Hwb. Bydd unrhyw newidiadau hefyd yn cael eu gwneud yn ganolog ar Hwb, felly fe'ch cynghorir i ddarllen a gwirio gwybodaeth ar y Cwricwlwm i Gymru yn rheolaidd. Mae'r darn ar Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau hefyd yn hanfodol ar gyfer cynllunio'ch cwricwlwm CGM.

Yma, fe ddewch o hyd i'r meysydd canlynol:

1. Cyflwyniad
2. Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig (mandadol)
3. Egwyddorion cynnydd (mandadol)
4. Disgrifiadau dysgu
5. Cynllunio'ch cwricwlwm

Mae'r adran ar "Gynllunio'ch cwricwlwm" yn cynnwys y wybodaeth ganlynol a fydd o ddefnydd i chi hefyd:

- Sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol
- Ystyriaethau penodol ar gyfer y Maes hwn
- Cysylltiadau allweddol gyda Meysydd eraill
- Themâu trawsbynciol

## Pwyntiau i'w Hystyried gan Ysgolion a Sefydliadau Merthyr Tudful

Fe'ch cynghorir i ddefnyddio'r cwestiynau canlynol wrth gynllunio'ch cwricwlwm ar gyfer CGM:

- Ydych chi wedi ystyried sut y bydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn gweithio orau o fewn Maes y Dyniaethau?
- Ydych chi wedi ystyried eich maes llafur cytunedig ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg?
- Ydy'r ffordd rydych yn cynllunio'r cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn helpu i wireddu'r pedwar diben?
- Ydych chi wedi defnyddio'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar gyfer y Maes hwn er mwyn eich helpu i gynllunio'r cwricwlwm?
- Ydych chi wedi defnyddio cysyniadau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wrth gynllunio'r cwricwlwm?
- Ydych chi wedi ystyried amrywiaeth o is-lensys y gellir eu defnyddio i edrych ar gysyniadau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg er mwyn helpu i gynllunio'r cwricwlwm?
- Ydych chi wedi ystyried cynnydd dysgu mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, gan ddefnyddio'r egwyddorion cynnydd a'r disgrifiadau dysgu Maes y Dyniaethau?
- Ydych chi wedi ystyried y "teithiau dysgu" a ddarparwyd er mwyn eich helpu i ddeall cynnydd mewn perthynas â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg?
- Ydych chi wedi myfyrio ar deithiau dysgu posibl eich dysgwyr eich hun er mwyn eich helpu i gynllunio'r cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg?
- Ydych chi wedi cynnwys cyfleoedd i gyfoethogi profiadau dysgwyr o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wrth gynllunio'r cwricwlwm?
- Ydych chi wedi gwneud cysylltiadau clir rhwng Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'r meysydd dysgu a phrofiad eraill?
- Ydych chi wedi cynnwys cyfleoedd ar gyfer datblygiad ysbrydol dysgwyr o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg?
- Ydy'r ffordd rydych yn cynllunio'r cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn sicrhau dyfnder, ehangder ac ansawdd dysgu priodol?

https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/cynllunio-eich-cwricwlwm/

## Yr "Hawl i Dynnu'n Ôl" yn y Cwricwlwm i Gymru

*"Nid oes gan rieni hawl i ofyn am gael tynnu eu plentyn yn ôl o addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn Cwricwlwm i Gymru."* https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/cynllunio-eich-cwricwlwm/#religion,-values-and-ethics-guidance

Yn y Cwricwlwm i Gymru, mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ofyniad statudol ar gyfer pob dysgwr o 3 i 16 oed. Dyma'r amserlen ar gyfer y newidiadau hyn:

| | | |
|---|---|---|
| Dysgwyr Oed Cynradd | – | Medi 2022; |
| Dysgwyr Blwyddyn 7 | – | Medi 2022 NEU Fedi 2023, yn dibynnu ar ba bryd y cyflwynir y Cwricwlwm i Gymru yn eu hysgol; |
| Dysgwyr Blwyddyn 8 | – | Medi 2023; |
| Dysgwyr Blwyddyn 9 | – | Medi 2024; |
| Dysgwyr Blwyddyn 10 | – | Medi 2025; |
| Dysgwyr Blwyddyn 11 | – | Medi 2026. |

Mae hyn yn unol â phob pwnc academaidd arall yn y Cwricwlwm i Gymru.

Sylwch y gall rhieni barhau i ofyn i'w plant gael eu tynnu allan o "addoli ar y cyd" o fis Medi 2022, os dymunant, gan fod hwn yn wahanol ac ar wahân i bwnc academaidd CGM.

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â hyn, ewch i: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/crynodeb-o-r-ddeddfwriaeth/#religion,-values-and-ethics

Mae meysydd eraill o'r Cwricwlwm i Gymru, Deddfwriaeth CGM Cryno a Chanllawiau CGM ar gael i gynghori ac arwain ysgolion a sefydliadau. Dyma rai o'r meysydd a'r dolenni hynny:

Cyfoethogi profiadau dysgwyr o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Datblygiad ysbrydol a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Sicrhau cynwysoldeb mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg mewn lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir

Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol

## Deunyddiau Ategol Ychwanegol ar gyfer Ysgolion a Sefydliadau Merthyr Tudful

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Chyngor Ymgynghorol Sefydlog Merthyr Tudful ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn parhau i ddarparu deunyddiau ategol yn ychwanegol i'r Maes Llafur Cytûn hwn. Bydd y rhain yn cael eu diweddaru'n rheolaidd ac wedi'u cynllunio i ddarparu cymorth parhaus i ymarferwyr. Bwriedir i'r rhain fod yn ddogfennau, yn ddeunyddiau ac yn adnoddau "byw" a gweithredol i adlewyrchu esblygiad y Cwricwlwm i Gymru.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a CYS Merthyr Tudful yn croesawu cyfraniadau ac awgrymiadau ar gyfer y deunyddiau ategol ychwanegol. Gellir sefydlu pwyllgorau gwaith i gefnogi datblygiad y deunyddiau hyn. Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, mae croeso ichi gysylltu ag Andrea May, Pennaeth Cyflawniad a Llesiant: andrea.may@merthyr.gov.uk.

Dysgu ym Merthyr Tudful | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

# Cyswllt

Am arweiniad pellach ar Faes Llafur Cytûn Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a'r Cwricwlwm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, mae croeso ichi gysylltu â:

**andrea.may@merthyr.gov.uk**